

# PENRHIW

## gan BUDDUG MEDI

Mae'r chwilen hanes — hanes bro, Cymru ac enwogion wedi cydio ynof. A phan dderbynias fanylion gan Farmers' Mart, Dolgellau am werthu Penrhiw, Y Bala, cartref Betsi Cadwaladr, y nyrs yn Y Balaclava, a'i thad Dafydd Cadwaladr (1752-1834), un o gynghorwyr y Methodistiaid, roedd gen i ddiddordeb. Diddordeb hefo 'D' fawr.

'Traditional Two Bedroom Cottage of Historic Interest and in need of Modernisation', oedd geiriad y catalog. Roedd gen i ryw gymaint o syniad faint o foderneiddio oedd yn angenrheidiol a rhyw f-r-a-s amcan o'r gost...

Ond dewiswyd arwerthiant cyhoeddus fel y dull o werthu'r bwthyn, yr erw a hanner o dir, a'r côr (neu feudy). Fy ymateb cyntaf oedd — ocsiwn... maen tramgwydd. Mi fydda i'n cael calon-guro wrth gynnig am ddodrefnyn mewn arwerthiant, heb sôn am dyddyn hanesyddol o bwys i'r genedl!

Penodwyd dyddiad, lle ac amser i'r ocsiwn — Dydd Iau, Awst 19eg, 1993, yng Ngwesty'r Llew Gwyn, Y Bala am 3 o'r gloch. Gan gymaint fy swildod a'm hansicrwydd, es heibio i ddrws ffrynt y gwesty, a mynd am y cefn. Yn ôl un oedd yno'n sgwrsio â mi funudau cyn y sêl, mi daerech mod i'n wynebu'r crocbren. Sefais yng nghefn y stafell, gan bwysu ar y ddreser Gymreig sydd yno. Llanwodd y lle â ffermwyr. Fe'u cofnodais i gyd yn fy nyddiadur y noson honno.

Eisteddai Mr. Richard Jones, yr Arwerthwr a Mr. Robin Price, Sgweiar Stad Y Rhiwlas gan wynebu'r darpar brynwyr. Os gwerthid Penrhiw heddiw, hwn fyddai'r tro cyntaf i'r lle fynd i ddwylo preifat. Yn wreiddiol, perthynai'r tyddyn wyth acer i Stad Plas yn Dre. Ond yn Llyfr Memorandum Y Rhiwlas sydd yn y Llyfrgell Genedlaethol ceir nodyn yn llawysgrif Richard Watkin Price:

'1837 July 12 Purchased Penrhiw of George Lloyd of Plas yn dre for nine hundred and fifty pounds and three fields in Ffrydan for four hundred and twenty.' (Cyfeiriad yw hyn at werthu rhan o stad fawr Seimon Llwyd wedi ei farwolaeth ym 1836).

Ond dyma'r arwerthwr ar ei draed, gan roi braslun o reolau'r sêl a dweud gair neu ddau am yr enwog Betsi. Ymhen pedwar munud daeth y morthwyl i lawr. Cyhoeddwyd mai fi oedd y prynwr. Es allan drwy ddrws ffrynt Y Llew Gwyn. O safbwynt y gwerthwr, derbyniodd bris da. O'm safbwynt i, y prynwr, cynigiais bris rhy dda. A hynny am gragen o fwthyn hanesyddol



Penrhiw, Y Bala yn 1994 cyn yr adnewyddu.

oedd yn prysur ddadfeilio, o ie, a chôr — ac acer a hanner o dir. Be'n y byd mawr wnawn i â'r ddau olaf?

Mi deimlais yn reit sâl am dridiau. Yna dychwelodd yr hen wefr o adnewyddu tai. Ond y tro hwn roedd gen i gyfrifoldeb i adfer y bwthyn i'w gyflwr gwreiddiol.

Yn ystod y misoedd y disgwyliwn am yr adeiladwyr, ces hoe i astudio'r tŷ a'i breswylwyr. Oddi wrth yr hyn a gofnodwyd yn y Cyfrifiad bu teulu Dafydd Cadwaladr yn byw ym Mhenrhiw am fwy na chan mlynedd. Ar gofnodres y mapiau degwm ceir enwau rhannau o'r tir a berthynai i'r tyddyn: Cae Penrhiw, Coed, Cae Uchaf, Erw, Ffriddvoel, Ffridd ffinen, Cae Mownog, Ffridd Ysgubor, Bwlch Cae Rug, Gwastadros.

Daeth Yr Athro Trefor M. Owen, Cyn-Guradur Amgueddfa Werin Sain Ffagan, a Gwennlian ei wraig, i Benrhiw i egluro sut dŷ oedd yma yn y ddeunawfed ganrif. Buom yno am rai oriau yn curo parwydydd ac yn manylu ar drawstiau. 'Croglofft ar gyfer plant oedd y stafell wely yma'n wreiddiol,' meddai Trefor Owen. 'Ac mae'r grisau wedi'u gosod o chwith i'r drefn flaenorol er mai ysgol oedd yma yn amser Betsi.'

Derbynias gopi o 'Ychydig Gofnodau am Fywyd a Marwolaeth Dafydd Cadwaladr', Gwasg R. Saunderson, Y Bala, 1836. (Dim sôn am y cofiannydd). Prynais gopi o 'An Autobiography of Elizabeth Davis' a olygwyd gan Jane Williams (Ysgafell) — cyfrol a ymddangosodd gan Wasg Honno ym 1987. Ail gyhoeddwyd y cyfan o gyfweiliadau Betsi yn yr argraffiad gwerthfawr hwn.

Cyrhaeddodd yr adeiladwyr ddiwedd Mehefin 1994. Wrth symud drws-llithro 'modern' ar

y brif stafell wely, dyma ddarganfod y fynedfa wreiddiol i lofft Dafydd Cadwaladr. Ac ar ddistyn uwchben y drws roedd dimai wedi gwisgo'n llyfn gyda threigliad y blynyddoedd. Ces farn Edward Besly o Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae'n debyg mai dimai y bwriadwyd ei defnyddio yn Iwerddon ydoedd, ac fe'i gwnaed yng nghyfnod Siôr II rhwng 1736 ac 1755. Awgrymai'r ddimai nad oedd y distyn fawr hŷn na 1800.

Mae'n debyg bod hen draddodiad o guddio darn o arian fel y gellid ymfrostio bod 'pres yn y tŷ!' Wedi tynnu'r Rayburn, daeth simdde fawr y gegin fyw i'r golwg.

Pan briododd Dafydd Cadwaladr â Judith Humphreys yn Eglwys Llanycil, Mai 12, 1778 (y ddau'n rhoi x yn hytrach na llofnodi'r dystysgrif) gan ddechrau eu bywyd priodasol ar aelwyd Penrhiw, mae'n bosib bod y tŷ newydd ei godi. Ar gofrestr plwyf Llanycil deuthum ar draws cofnod am naw o blant a anwyd i Dafydd Penrhiw. Yn eu plith ceir: 'Elizabeth of David Cadwaladr and Judith his wife baptized May 26, 1789' Go brin i neb broffwydo bywyd anturus Betsi y diwrnod hwnnw.

Fe'i haddysgwyd, mae'n debyg, yn un o ysgolion elusennol Thomas Charles a gynhelid yn yr hen gapel Methodistiaidd ger Capel Tegid, Y Bala, heddiw. Cymraeg oedd cyfrwng yr addysg yn y 1790'au. Pan gollodd Betsi ei mam, a hithau'n ddeg oed, gofalodd Mrs Bridget Llwyd ei bod yn cael cartref efo hi a Seimon Llwyd ym Mhlysyndre, a dysgu gwaith tŷ, macsu, siarad Saesneg a chanu'r delyn deires.

Ond roedd bywyd Plasyndre a'r Bala yn rhy gyfyng i'r ferch anturus o Benrhiw. Gadawodd yn ddisymwth un Nos Sul yn union wedi iddi addo i Mrs

Llwyd y byddai'n parhau ym Mhlysyndre am o leiaf flwyddyn arall.

Dyma'r ferch a wrthododd o leiaf ugain o gynigion i briodi (ar ei chyfaddefiad ei hun).

Dyma'r un a hwyliodd i bellteroedd y greadigaeth a chyfarfod John Davies, Tahiti, y cenhadwr a fu yn ei ieuenctid yn brentis groser yn Y Bala.

Dyma'r ferch a hoffodd olwg Mrs Capten Nelson yn yr India — heb sylweddoli mai Mary ei chwaer oedd hi. Yn wraig weddw, ymfudodd Mary o'r India i Gerrigydrudion, ardal enedigol Dafydd Cadwaladr.

Dyma'r ferch a benderfynodd mewn amrantiad wrth ddarllen *The Times* y byddai'n ymuno â nyrsus dan ofal Florence Nightingale i ofalu am gleifion Rhyfel y Crimea. Pan gyrhaeddodd Betsi gartref Mrs Sidney Herbert i ffitio boned, clogyn a galoshes ar gyfer yr anturiaeth, ymateb un gŵr a oedd yno ar y pryd oedd: 'My good woman, you must be either drunk or mad!'

Dyma'r ferch a aeth allan fel nyrs i weini ar y milwyr clwyfedig — ond a gafodd y gwaith o drwsio hen gysau wedi pydru yn union wedi iddi lanio.

Dyma'r ferch a gafodd ofal cegin deiet arbennig y milwyr.

Ar ben hyn i gyd rhannodd Betsi Cadwaladr gopïau o'r Testament Cymraeg a Saesneg i'r milwyr. 'Mam' y byddai'r milwyr yn ei galw.

Heddiw, pedair Cymraes ifanc yw tenantiaid Penrhiw. Ar fy silff ben tân mae llun o Betsi, llun a beintwyd ar blât gan Beti James, Y Bala. Mi fydda i'n edrych arno yn aml ac yn meddwl cymaint ydy dylanwad y ferch hon arna i hyd heddiw — yr holl bres wnes i wario oherwydd Betsi Cadwaladr — a ches i ddim ceiniog o grant o unman.